

Beth yw newid hinsawdd?

Beth yw cynhesu byd-eang?

Pan fyddwn yn gwyllo'r teledu, gyrru yn y car, hedfan ar wylliau neu'n troi golau ymlaen, rydym yn defnyddio tanwydd ffosiledig. Gelwir hwy y tanwydd ffosiledig oherwydd maent yn dod o greigiau sydd filoedd o flynyddoedd oed. Llosgir tanwydd ffosiledig i greu pethau fel trydan a nwy a petrol. Ond mae'r tanwydd ffosiledig yn rhyddhau nwyon tŷ gwyrdr megis carbon diocsid (CO₂).

Mae ychydig o nwyon tŷ gwyrdr yn helpu cadw'r ddaear yn gynnes gan eu bod yn dal pelydrau'r haul yn ein hatmosffer. Ond nawr mae mwy o'r nwyon hyn yn cael eu gollwng i'r awyr. Golyga hyn fod mwy o wres yr haul yn cael ei 'gloi' yn yr atmosffer ac felly mae'r byd yn cynhesu. Gelwir hyn yn cynhesu byd-eang a dyma un rheswn pam fod ein hinsawdd yn newid.

Pan fo pobl yn trafod '**gollwng carbon**', fel arfer maent yn golygu faint o garbon diocsid (CO₂) a ollyngir i'r awyr.

Mae pob gwlad yn gollwng carbon, ond y gwledydd cyfoethog sydd yn gollwng y mwyaf. Ar gyfartaledd, mae pob person yn ardal is-Sahara Affrica yn gollwng llai na thunnell o CO₂ y flwyddyn. Er enghraifft mae pob person yn Senegal yn gollwng 0.4 tunnell y flwyddyn, ond yn Mali, dim ond 0.1 tunnell. Mae'r gwahaniaeth yn sylweddol pan rydych chi'n eu cymharu gyda ffigyrau o'r DU, Iwerddon a'r UD. Ar gyfartaledd mae pob person yn y DG yn gollwng 9.4 tunnell y flwyddyn ac yn Iwerddon mae'n 10.3 tunnell. Yn yr UD, mae pob person yn gollwng tua 20 tunnell y flwyddyn.

Beth sy'n digwydd i'n planed?

- Mae'r tymheredd uwch yn achosi i'r rhewlifoedd a'r capiau iâ i doddi. Mae miliynau o bobl yn Asia a De America angen y dŵr o'r rhewlifoedd a'r capiau iâ i fyw. Unwaith bydd y rhewlifoedd a'r capiau iâ yn diflannu, does dim modd cymryd eu lle.
- Wrth i'r rhewlifoedd a'r capiau iâ doddi, mae hyn yn golygu bydd mwy o ddŵr yn cael ei dywallt i'r afonydd a'r cefnforoedd. Mae hyn yn gallu achosi llifogydd, yn enwedig mewn gwledydd sydd â thir isel, fel Bangladesh. Mae llifogydd yn dinistrio cnydau ac adeiladau, felly mae nifer o bobl yn gorfod gadael eu cartrefi.
- Mae prinder dŵr yn broblem hefyd. Mae newid yn y patrymau glaw yn golygu bod rhai rhannau o Affrica yn cael ychydig iawn neu dim glaw o gwbl. Pan fydd sychder nid yw pobl yn gallu tyfu cnydau, felly nid oes digon o fwyd iddynt.

- Gall moroedd mwy cynnes arwain at stormydd cryfach a chorwyntoedd. Mae nifer y corwyntoedd, tornados, llifogydd a sychder yn cynyddu.
- Mae anialwch Sahara yn ehangu tua 300 metr y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod llai o bridd da ar gael i dyfu cnydau.
- Gyda mwy o dywydd cynnes a gwlyb gall afiechydon megis malaria (sydd yn cael ei ledu gan mosgitos) datblygu mewn ardaloedd newydd.
- Gall prinder dŵr a bwyd arwain at fwy o wrthdaro ac ymladd.



Rhowch gylch o gwmpas
y pethau yn y lluniau
sy'n gollwng nwyon
tŷ gwydr ac yn achosi
cynhesu byd-eang.